



*Datganiad i'r Cyfryngau
9fed Tachwedd 2020
I'w ryddhau ar unwaith*

Mae Canolfan Ffilm Cymru yn dyfarnu £52,000 mewn cronfeydd Covid-19 i sinemau a gwyliau yng Nghymru

Mae lleoliadau ffilm yn rhoi llesiant ar y blaen yn eu rhaglenni ailagor ôl Covid-19

Mae Canolfan Ffilm Cymru wedi dyfarnu £52,000 mewn cyllid Loteri Cenedlaethol, drwy Gronfa Arddangos FAN BFI, i 15 o sinema annibynnol a gwyliau ffilm wrth iddyn nhw gynllunio i ailagor.

Defnyddir yr arian i gynorthwyo adferiad, gan alluogi lleoliadau i aildechrau dangos ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol, yn cynnwys drwy seddi ar steil cabaret a 'swigod sgrin fawr', er mwyn iddyn nhw allu ailgysylltu gyda'r cymunedau mwyaf ynysig yng Nghymru sydd wedi cael eu heffeithio gan y cyfnod clo.

Cynhelir gweithgareddau ffilm gan gadw pellter cymdeithasol ar draws Cymru, gan greu gofod diogel lle gall pobl barhau i deithio'r byd drwy gyfrwng y sgrin fawr, am brisiau fforddiadwy. Fe fydd cynulleidfaoedd ar flaen y broses o wneud penderfyniadau, gyda'u hadborth yn cael ei werthfawrogi gan leoliadau wrth iddyn nhw ailadeiladu.

Er enghraifft, mae TAPE yn Hen Golwyn yn ailgychwyn Sinema Sofa ac fe fydd yn dangos *Sanctuary* mewn partneriaeth gydag asiantaeth paru lleol newydd i bobl gydag anableddau dysgu, Yn y Barri, fe fydd Canolfan Gelfyddydau'r Memo yn creu gweithgareddau 'Swigen Sgrin Fawr' gyda chrefftau digidol a chludo ymaith, ac yn y Magig Lantern, Tywyn, fe fyddan nhw'n 'ailgynnu'r lantern hud' gan osod y sinema fel goleudy dewr, eofn ar gyfer y dyfodol.

Ers cychwyn y pandemig mae nifer o safleoedd wedi methu agor eu dryau i'r cyhoedd. Gyda'r dyfodol yn parhau'n ansicr, maen nhw wedi bod yn gweithio i amrywio eu model busnes, datblygu gweithdrefnau iechyd a diogelwch cadarn a sicrhau ffynonellau incwm amgen holl bwysig.

Mae Hana Lewis, Rheolwraig Strategol Canolfan Ffilm Cymru yn esbonio:

"Mae angen inni gydnabod effaith sinemau yn ein cymunedau a'r golled potensial y bydd pawb ohonom yn ei wynebu os ydyn nhwn cau oherwydd y pandemig. O Neuadd Ogwen, oedd yn darparu bwyd i 600 o bobl drwy ei fanc bwyd, i'r Magic Lantern a Theatr Gwaun oedd yn darparu cyflenwadau meddygol a chefnogaeth iechyd meddwl i ddefnyddwyr bregus, mae lleoliadau annibynnol wedi mynd yr ail filltir i helpu'r rhai sydd fwyaf mewn angen. Maen nhw weid gwneud hyn ac ar yr un pryd yn cynllunio ar gyfer eu dyfodol ansicr eu hunain, archwilio eu cynlluniau busnes, adolygu eu dulliau mynediad a chydraddoldeb, edrych ar gynaliadwyedd

amgylcheddol. Fe fydd y cronfeydd yma yn eu helpu i ailgychwyn darpariaeth cymdeithasol, economaidd a diwylliannol holl bwysig drwy weithgareddau ar y sgrin”

Annie Grundy, Cyd-gyfarwyddwraig The Magic Lantern:

“Mae'r arian yma yn ein galluogi i lapio pelen fawr o wlan cotwm o amgylch ffilmiau Prydeinig, annibynnol ac ieithoedd tramor yn ein rhaglen yr oeddem yn yr hen ddyddiau cyn coronafeirws roeddem wedi eu tanysgrifio inni ein hunain. Mae'n sicrhau y gall ein cynulleidfaoedd, hyd yn oed gyda chapasiti llawer llai (36 o seddi yn lle 280 oherwydd rheolau cadw pellter) ddod i wyllo cymysegdd eclecticig o ffilmiau gwych ar y sgrin yn y Magic Lantern.”

Ychwanega Sue Whitbread, Prif Swyddog Gweithredol Theatr Gwaun:

“Mae cefnogaeth Canolfan Ffilm Cymru yn golygu ein bod yn gallu mynd ymlaen gyda'n strategaeth ffilm newydd. Fe fydd Theatr Gwaun nawr yn canolbwynto ar ffilmiau amrywiol, annibynnol gan adfywio diddordeb a datblygu cynulleidfaoedd newydd yn ein cymuned. Mae cyllid yn hanfodol, a hefyd y cyngor a'r mentora arbenigol.”

Mae Blanche Giacci yn byw ychydig strydoedd i ffwrdd o Theatr Gwaun ac ar gyfnod normal fe fyddai'n mynychu dangosiad o leiaf unwaith yr wythnos "Mae Theatr Gwaun yn rhan hanfodol o'n cymuned, yn darparu sinema, diwylliant ac adloniant i bob grwp oedran a diddordeb. Mae'n ganolfan gymdeithasol sydd yn gwella llesiant y gymuned.

Mae Ben Luxford, Pennaeth Cynulleidfaoedd DU yn BFI yn ychwanegu:

“Mae eleni wedi dangos pwysigrwydd ac angen rhaglennu y tu hwnt i'r prif ffrwd, ac rydym yn falch o allu cefngi arddangoswyr yng Nghymru i barhau i wneud hynny.”

Mae'r gronfa arddangos ffilm (BFI) drwy ei Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN). Mae'r gronfa yn cynnig cymorth hanfodol a pharhad busnes i arddangoswyr ar draws y DU gyfan. Gweinyddir y cronfeydd yng Nghymru gan Ganolfan Ffilm Cymru drwy Chapter fel y Corff Arwain Canolfan Ffilm.

Diwedd

Ar gyfer delweddau copi'wch a gludwch y ddolen ganlynol i'ch porwr:

<http://bit.ly/BFIFilmExhibFund>

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:

Megan David, Swyddog Marchnata ar 02920 311 057 / megan@filmhubwales.org (rhan amser Mawrth - lau),

Lisa Nesbitt, Swyddog Datblygu ar 02920 311 067 / lisa@filmhubwales.org

Hana Lewis, Rheolwraig Strategol ar 02920 353 740 / hana@filmhubwales.org

Prosiectau a gefnogir

Rhanbarth: Gogledd Cymru

TAPE (Old Colwyn):

Gan weithio'n agos gyda'u partneriaid, fe fydd TAPE yn ailgychwyn dangosiadau sinema wythnosol i gefnogi eu cymuned. Gan ganolbwyntio ar ynysigrwydd cymdeithasol, iechyd meddwl a llesaint, mae TAPE yn cynnig amrywiaeth o raglenni ymgysylltu a chefnogol i helpu pobl i gadw mewn cysylltiad.

Fe fydd amrywiaeth ar gael, o ffilmiau newydd Cymreig i ddigwyddiadau dan arweiniad ieuencid a dangosiad o Sanctuary mewn partneriaeth gydag asiantaeth paru lleol newydd i bobl gydag anabledd dysgu. Mae TAPE hefyd yn gartref i Wyl Ffilm Arfordir, Academi Ffilm BFI, digwyddiadau sinema awyr agored graddfa fawr a gŵyl ffilm cynhwysiant.

[Gwefan](#), [Twitter](#), [Facebook](#)

Rhanbarth: Gogledd Orllewin Cymru

CellB (Blaenau Ffestiniog):

Fe fydd Gwallgofiaid Cellb yn ailgysylltu cynulleidfaoedd ym Mlaenau Ffestiniog gyda'r byd ehangach, ôl Covid-19, drwy archwilio diwylliant a newid hinsawdd ar y sgrin. Eu nod ydy creu gofod diogel lle y gall y gymuned deithio'r byd drwy ffilm, ar bris fforddadwy. Fe fyddan nhw'n dechrau'n lleol gyda hanes Cymru ac yn tywys cynulleidfaoedd i ieithoedd a diwylliannau cudd. Fel menter yn cael ei arwain gan ieuencid, maen nhw'n gweithio i ehangu mynediad i'r celfyddydau i bobl ifanc yn y Blaenau a hefyd yn cefnogi eu cynulleidfaoedd oedrannus drwy ddangosiadau hygyrch rheolaidd, fforymau a phecynnau rhodd i'w cadw mewn cysylltiad yn ystod y cyfnod clo.

[Gwefan](#), [Twitter](#), [Facebook](#)

Theatr y Ddraig (y Bermo):

Ymagwedd diogel tuag at ddychweliad cynulleidfaoedd i Theatr y Ddraig, y Bermo drwy gynnwys amrywiol ffilmiau nad yw'n brif ffrwd. Gan ddefnyddio bargaen archebu Banc Ffilmiau i ddangos wyth o ffilmiau rhwng loanwr a Mawrth, fe fyddan nhw'n cynnig 12 sedd pob dangosiad gyda 'swigod' yn eu seddi llawr a'r balconi. Cyflwynir ffilmiau i gynulleidfaoedd hŷn gyda swigod llai gan alluogi cynulleidfaoedd rheolaidd a newydd i fwynhau profiad sinema yn Eryri unwaith etol.

[Gwefan](#), [Twitter](#), [Facebook](#)

Galeri a Phrosiect Ieuencid Galeri (Caernarfon):

Mae gweithgaredd yn cynnwys map ffordd Galeri wrth iddyn nhw baratoi i ailagor y rhaglen sinema: Ymgysylltu > ymestyn allan > cynllunio > rhaglennu > ailagor. Maen nhw'n parhau i ddatblygu hygyrchedd gydag amrywiaeth o ddangosiadau ymlacedig, rhaglennu LGBT+ dan arweiniad ieuencid, yr ŵyl ffilm PICS i gynulleidfaoedd ifanc, BSL, ymgyrchoedd marchnata gyda chefnogaeth a'r nod o ddod yn Makaton gyfeillgar erbyn 2021.

Fe fydd cynulleidfaoedd wrth galon y broses o wneud penderfyniadau wrth i'r lleoliad ailagor, gan alluogi pobl i gymryd rhan yn y datblygiad ôl covid-19.

Fe fydd Galeri hefyd yn cymryd rhan mewn peilot blwyddyn dan arweiniad Film London o'r enw Cynllun Cenedlaeth Cynulleidfaoedd Ifanc a fydd yn profi cynllun tocynnau annibynnol DU gyfan i gynulleidfaoedd ifanc 16-25 oed.

[Gwefan](#), [Twitter](#), [Facebook](#)

Neuadd Ogwen (Bethesda):

Fe fydd Neuadd Ogwen, Bethesda, yn cynnig dangosiadau ffilm gan gadw pellter cymdeithasol, steil cabaret gyda gwasanaeth bwrdd ar gyfer grwpiau wedi'u trefnu o flaen llaw pan fyddan nhw'n ailagor. Fe fyddan nhw'n cynnig amgylchedd ddiogel, ymlacedig i gartrefi estynedig i ailgysylltu a mwynhau ffilmiau gyda'i gilydd.

Wrth i Bethesda gyrraedd ei 20fed penblwydd, gall cynulleidfaoedd ddisgwyl rhywfaint o ddathlu drwy ffilmiau o Gymru yn ogystal ag amrediad o ffilmiau ar themâu cyfeillgar i'r teulu, amgylcheddol ac anturus.

[Gwefan](#), [Twitter](#), [Facebook](#)

Canolfan Ucheldre Centre (Caergybi):

Nod Canolfan Ucheldre ydy ysbrydoli cynulleidfaoedd gyda chyfres o ddangosiadau ffilm cyffrous, amrywiol ac ysbrydoledig yn cynnwys y 6ed Gŵyl Ffilm SeeMôr. Fe fydd cyfleoedd i gymryd rhan mewn gwneud penderyniadau wrth i'r lleoliad ailagor.

Fe fydd y gymuned yn cael profi amrediad o wahanol ddiwylliannau a persbectifau ar sgrin, wedi'u curadu gan raglennwr lleol o gefndir lleiafrifol gyda phrofiad bywyd.

[Gwefan](#), [Twitter](#), [Facebook](#)

Rhanbarth: Gogledd Orllewin Cymru

Ffilm Wicked Wales / Grŵp Cymunedol P&M (y Rhyl):

Yn ogystal ag ailgychwyn eu sinema cymunedol, mae Wicked Wales wedi symud eu gŵyl ieuencid ar-lein yn Hydref 2020. Rhaglen o ffilmiau byr wedi'u gwneud gan bobl ifanc a'r ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol diweddaraf i gynulleidfaoedd yn y Rhyl a thu hwnt.

Fe fydd gan ysgolion a grwpiau ieuencid fwydlen o weithgareddau i ddewis ohonyn nhw, yn cynnwys gweithdai Into Film a ffilmiau Cymreig. Maen nhw'n chwilio am wneuthurwyr ffilm ifanc yng Nghymru drwy sefydliadau addysg, cyrff hyfforddi, diwydiant a phartneriaid cenedlaethol i ddwyn ynghyd casgliad o ffilmiau ar gyfer cystadleuaeth Gymreig yn unig a fydd yn rhan o ddiwrnod 'Ffilmiau newydd o Gymru' ym mis Mawrth 2021.

[Gwefan](#), [Twitter](#), [Facebook](#)

Rhanbarth: De Ddwyrain Cymru

Canolfan Gelfyddydau'r Memo (y Bari):

Fe fydd Canolfan Gelfyddydau'r Memo yn y Barri yn creu gweithgareddau 'Sgwiggen sgrin fawr' fforddiadwy pan fyddan nhw'n ailagor, gyda'r bwriad o groesawu cynulleidfaoedd newydd a hen. Fe fydd ymwelwyr yn edrych ar y sgrin mewn swigod gan gadw pellter cymdeithasol, sydd wedi

eu creu gan ystyried hygyrchedd a llesiant creadigol. Fe fydd crefftau digidol ar gael ar-lein ac i'w cymryd ymaith, ynghyd â bagiau trit i deuluoedd neu oedolion yn cael eu gweini i seddi ar steil cabaret. Fe fydd y Ganolfan yn gwranddo ar ac yn ymgorffori adborth gan eu cynulleidfaoedd wrth iddyn nhw lunio strategaethau rhaglennu newydd ac amrywiol ôl Covid-19.

[Gwefan](#), [Twitter](#), [Facebook](#)

Theatr y Savoy (Trefynwy):

Mae'r Savoy hanesyddol yn Nhrefynwy, sydd ar y safle theatr hynaf yng Nghymru, yn aneulu i ailagor ar gyfer digwyddiadau sinema dethol o ddiwedd Hydref. Mae'n nhw'n gweithio'n galed i ailgysylltu gyda chynulleidfaoedd yn ystod y pandemig ac fe fyddan nhw'n cyflwyno detholiad o ffilmiau gyda chysylltiadau Cymreig i gynulleidfaoedd ifanc a hen fel ei gilydd, yn cynnwys ffilmiau gyda chefnogaeth BFI Saint Maud ac Eternal Beauty.

[Gwefan](#), [Twitter](#), [Facebook](#)

Rhanbarth: Gorllewin Cymru

Sinema'r Commodore (Aberystwyth):

Mae'r Commodore yn Aberystwyth yn sinema deulu mewn tref prifysgol yn cynnig profiad sinema am y tro cyntaf i nifer o bobl ifanc. Fe fyddan nhw'n cyflwyno rhaglen o ffilmiau prif ffrwd, Prydeinig a rhyngwladol i gynulleidfaoedd ôl Covid-19 i gefnogi cymunedau lleol, gwledig yn cynnwys pobl ifanc o oedran cynradd i fyfyrwyr.

[Gwefan](#), [Twitter](#), [Facebook](#)

Magic Lantern (Tywyn):

Fe fydd y tîm yn ailgynnau'r Lantern Hud gan gyflwyno rhaglen gyffrous ac amrywiol o ffilmiau o ganol Hydref i ddiwedd Mawrth gan gynnig cyfle i gynulleidfaoedd aildarganfod bywyd ar ochr arall y byd tra hefyd yn adlewyrchu bywydau, sefyllfaoedd a chariad pobl leol.

Fe fydd dangosiadau o 50 o leiaf o ffilmiau Annibynnol, Prydeinig neu Byd ochr yn ochr â rhaglen prif ffrwd yn adlewyrchu ac yn parchu amrywiaeth a dyheadau eu cynulleidfa. Wedi addasu y gofod, maen nhw'n gobeithio cynnig digwyddiadau hygyrch, gwyrddach, fforddiadwy ar gyfer cynulleidfaoedd ôl Covid-19. Eofn, dewr a goleudy i'r dyfodol.

[Gwefan](#), [Twitter](#), [Facebook](#)

Rhanbarth, De Orllewin Cymru

Theatr y Torch (Aberdaugleddau):

Mae'r Torch yn gobeithio ailgynnau angerdd dros ffilmiau ac ailgysylltu gyda'u cynulleidfaoedd amrywiol, hen a newydd, gan annog dychwelyd i'r sinema ar ôl bod wedi cau am 7 mis. Gan ddefnyddio marchnata digidol a thraddodiadol a'u rhwydweithiau cymunedol, eu nod ydy cefnogi ac ysbrydoli cynulleidfaoedd sydd wedi'u tangynrychioli ac sydd yn hyglwyf tra'n datblygu'r genhedlaeth nesaf o gynulleidfa sinema. Gall cynulleidfaoedd ddisgwyl llinyn ffilmiau ac atgofion, Gŵyl Into Film ochr yn ochr gyda'u rhaglen llysgennad ifanc a chymysgedd eclecticig o dymhorau ar themâu arbenigol.

[Gwefan](#), [Twitter](#), [Facebook](#)

Theatr Gwaun (Abergwaun):

Fel sinema gymunedol yng nghanol Sir Benfro wledig, mae Theatr Gwaun yn bwriadu ailagor fel sinema o ganol Tachwedd gan gynnig rhaglen o ffilmiau o 6 o ddangosiadau gan gadw pellter cymdeithasol bob wythnos. Gan adlewyrchu amrywiaeth eu rhaglen ffilm, fe fydd Gwaun yn cynnig dangosiadau gyda chefnogaeth o ffilmiau newydd a hen ffefrynnau i'r rhai gyda rhwystrau o deithio i gost phroblemau cymdeithasol ehangach. Gall cynulleidfaoedd ddisgwyl nosweithiau digwyddiadau, adolygiadau cynulleidfa a chyfle i gymryd rhan mewn fforymau ar-lein.

[Gwefan](#), [Twitter](#), [Facebook](#)

Rhanbarth: Cymry Gyfan

Gŵyl Ffilm WOW:

Fe fydd WOW yn agor eu hugeinfed gŵyl ar Ddiwrnod Rhyngwladol Menywod gydag dangosiad Clwb Ffilm WOW ar-lein a thrafodaeth panel dan arweiniad Dr Nilu Ahmed. Nod eu gŵyl fyw o 10-12 o ffilmiau yn Aberystwyth a Kinokulture a digwyddiadau ar-lein, fydd ailgysylltu gyda'u cynulleidfaoedd ffyddlon a chynnig rhaglen ar-lein 'talwch beth rydych chi eisiau' o ffilmiau newydd DU a digwyddiadau i gynulleidfaoedd unrhyw le yng Nghymru ac yn DU gyfan.

Fe fyddwn nhw'n rhedeg llinyn 'y gorau o WOW' y gall y gynulleidfa bleidleisio arno cyn yr ŵyl gan eu galluogi i ddylanwadu yn uniongyrchol ar y rhaglen ffilm. Fe fyddan nhw'n gweithio gyda chynulleidfaoedd amrywiol sydd prin yn cael eu gweld fel ffoaduriaid a cheiswyr lloches, i gydgreu digwyddiadau a chynnal trafodaethau ochr yn ochr gyda'r ffilmiau.

[Gwefan](#), [Twitter](#), [Facebook](#)

Nodiadau i Olygyddion:

Am Canolfan Ffilm Cymru:

Nod Canolfan Ffilm Cymru ydy cyflwyno rhagor o ffilmiau i ragor o bobl mewn rhagor o leoedd o amgylch Cymru. Yn rhan o Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI, a gyda chefnogaeth cyllid y Loteri Cenedlaethol, mae Canolfan Ffilm Cymru yn rheolaidd yn datblygu ffyrdd dyfeisgar i bobl yng Nghymru fynd i'r sinema gyda'i leoliadau aelod annibynnol.

Mae Canolfan Ffilm Cymru yn un o wyth 'canolfan' DU gyfan, rhan o Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN) BFI ac fe'i cefnogir gyda chyllid y Loteri Cenedlaethol gyda Chapter wedi'i benodi yn Gorff Arweiniol Canolfannau Film (FHLO) yng Nghymru. Ein nod ydy cyrraedd cynulleidfaoedd trwy ddatblygu'r sector arddangos, cynnig cefnogaeth prosiect ymchwil, hyfforddiant a datblygu cynulleidfaoedd. Ers sefydlu Canolfan Ffilm Cymru yn 2013 rydym wedi cefnogi dros 225 o brosiectau sinema a chyrraedd dros 465,000 o aelodau cynulleidfa

Rydyn ni hefyd yn falch o arwain ar strategaeth sinema cynhwysol DU ar ran FAN BFI.

[Gwefan](#), [Twitter](#), [Facebook](#)

Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI

Gyda chefnogaeth cyllid y Loteri Cenedlaethol. Mae Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN) BFI yn ganolog i nod BFI o sicrhau bod y dewis mwyaf o ffilmiau ar gael i bawb. Fe'i sefydlwyd yn 2012 i adeiladu cynulleidfaedd ffilm DU ehangach a mwy amrywiol i ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol. Mae FAN yn gydweithrediad DU gyfan, unigryw sydd yn cynnwys wyth canolfan a reolir gan gyrrff a lleoliadau ffilm wedi'u lleoli'n strategol ar draws y DU. Mae FAN hefyd yn cefnogi datblygiadau talent gyda Swyddogion Gweithredol Talent RHWYDWAITH BFI ym mhob un o'r canolfannau yn Lloegr, gyda'r genhadaeth o ddarganfod a chefnogi awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr talentog ar ddechrau eu gyrfaedd.

Canolfannau Ffilm FAN BFI ydy:

- Film Hub Midlands dan arweiniad Broadway, Nottingham mewn partneriaeth gyda Flatpack o Birmingham
- Film Hub North dan gyd arweinyddiaeth Showroom Workstation, Sheffield, a HOME Manchester
- Film Hub South East dan arwiniad y Swyddfa Sinema Annibynnol
- Film Hub South West dan arweiniad Watershed ym Mryste
- Film Hub Scotland dan arweiniad Glasgow Film Theatre
- Film Hub Northern Ireland dan arweiniad Queen's University Belfast
- Canolfan Ffilm Cymru dan arweiniad Chapter yng Nghaerdydd
- Film Hub London dan arweiniad Film London

[Gwefan](#)

Am BFI

BFI ydy corff arweiniol y DU ar gyfer ffilm, teledu a'r delwedd symudol. Mae'n elusen diwylliannol sydd yn:

- Curadu ac yn cyflwyno'r rhaglen gyhoeddus ryngwladol fwyaf o sinema byd i gynulleidfaedd, mewn sinemau, gwyliau ac ar-lein,
- Yn gofalu am Archif Cenedlaethol BFI – yr archif ffilm a theledu mwyaf arwyddocaol yn y byd,
- Yn chwilio am y genhedlaeth nesaf o wneuthurwyr ffilm ac yn eu cefnogi,
- Yn gweithio gyda'r llywodraeth a'r diwydiant i wneud y DU yn lle mwyaf creadigol gyffrous a ffyniannus i wneud ffilm yn rhyngwladol.

Wedi'i sefydlu ym 1933, mae BFI yn elusen gofrestredig wedi'i llywodraethu gan Siarter Brenhinol Cadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr BFI ydy Josh Berger CBE.

[Gwefan](#), [Facebook](#), [Twitter](#)

Am y Loteri Cenedlaethol

Diolch i chwaraewyr y Loteri Cenedlaethol, mae hyd at £600 miliwn o gyllid wedi ei ddarparu i gefnogi cymunedau ar draws y DU yn ystod y pandemig Coronafeirws.

Mae'r Loteri Cenedlaethol yn chwarae rhan hanfodol mewn cefnogi prosiectau, pobl a chymunedau yn ystod y cyfnod heriol yma

Drwy chwarae'r Loteri Cenedlaethol, rydych yn gwneud cyfraniad rhyfeddol at yr ymateb cenedlaethol i frwydro yn erbyn effaith COVID-19 ar gymunedau lleol ar draws y DU .

[Gwefan](#), [Facebook](#), [Twitter](#)

Am Chapter

Mae Chapter yn un o ganolfannau celfyddydau mwyaf a mwyaf deinamig Ewrop gyda sinemau, theatrau, gofod arddangos, stiwdios a chaffi, bariau arobryn, dros 60 o ofod gweithio diwylliannol a rhagor.

Mae gan Chapter enw da rhyngwladol am ragoriaeth, arloesi a chydweithredu. Mae'n cynnig rhaglen newidiol barhaus o'r perfformiadau, ffilmiau ac arddangosfeydd gorau o Gymru ac o amgylch y byd.

[Gwefan](#), [Facebook](#), [Twitter](#)